**LC493**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002**

Mae hwn yn amnewid Rhan 24 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Mae hyn yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas â chyfarpar telathrebu.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gofynnwyd cwestiynau i'r Gweinidog mewn perthynas â'r materion canlynol.

- Holwyd pam fod amod A.3(4)(b) mewn perthynas â chydymffurfio â darpariaethau sy'n ymwneud ag amddiffyn rhag ymbelydredd, yn gofyn am gyflwyno datganiad gyda phob cais yn hytrach na'i fod ar ffurf mwy uniongyrchol, sef amod bod yn rhaid i'r cyfarpar gydymffurfio â'r darpariaethau y cyfeirir atynt.
- Holwyd pam mai ar gyfer datblygiadau sy'n dod o dan y cyfyngiadau a bennir yn A.2(4) yn unig y mae'r uchod yn berthnasol o gofio bod y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) drafft yn ceisio cymhwyso'r un darpariaethau amddiffyn rhag ymbelydredd i ddisgrifiad ehangach o ddatblygiadau.

Ceir yr ymateb a gyflwynwyd ar ran y Gweinidog yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

Mae'r sylwadau a gyflwynwyd ar ran y Gweinidog yn mynd i'r afael â'r ail ymholiad yn gyntaf. Mewn perthynas â'r ail ymholiad cynigir y byddai cyflwyno gofyniad o dystysgrif mewn perthynas â'r disgrifiad ehangach o ddatblygiadau yn arwain at anawsterau

ymarferol o gofio y byddai'r gofyniad wedyn yn berthnasol i achosion lle nad oes yn rhaid hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol ymlaen llaw.

Nid yw'r pwynt hwn yn hollol glir o gofio'r pwynt a godwyd yn yr ymholiad cyntaf. Gellid bod wedi pennu'r gofyniad dan sylw fel amod a fyddai'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygiad gydymffurfio â'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn hytrach nag fel amod sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyflwyno datganiad.

Er hynny, mater polisi yw faint o ddatblygiadau sy'n gorfod cydymffurfio ag argymhelliad Cyngor yr UE. Felly, nid yw'r Pwyllgor ond yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r agwedd benodol hon ar y gorchymyn fel un yr oedd angen eglurhad pellach arni, a bod yr eglurhad hwnnw bellach wedi'i roi ar ran y Gweinidog.

Mewn perthynas â'r ymholiad cyntaf dyma a gyflwynwyd ar ran y Gweinidog. Ar ôl penderfynu cyfyngu'r gofynion i'r datblygiadau telathrebu hynny sydd yn rhaid eu cymeradwyo ymlaen llaw, mae gwneud hynny drwy ofyniad i gyflwyno datganiad yn hytrach na thrwy amod sy'n cyfyngu'n uniongyrchol ar y datblygiad yn "fater o drefn yn hytrach na sylwedd". Eglurir hefyd bod rhagesiampl yr Alban SSI 2001/266 wedi bod yn "ffactor bwysig" yn y penderfyniad hwn.

Cred y Pwyllgor bod y rhesymeg uchod i ryw raddau'n ymddangos yn "gylchol". Dywedir mai'r rheswm pam fod datblygiadau sy'n gorfod cydymffurfio â'r canllawiau wedi'u cyfyngu i achosion lle mae'n ofynnol gwneud cais ymlaen llaw yw am ei bod yn anodd cymhwyso gweithdrefn "ddatgan" mewn achosion lle nad yw'n ofynnol gwneud cais ymlaen llaw. I'r gwrthwyneb, fodd bynnag, mae'r rheswm dros fabwysiadu gweithdrefn "ddatgan" yn hytrach nag amod sy'n gofyn yn uniongyrchol am gydymffurfio â'r canllawiau yn deillio o'r penderfyniad mai ond mewn achosion lle mae'n rhaid hysbysu ymlaen llaw y dylai hyn fod yn ofynnol.

Er hynny, derbynnir mai mater o bolisi yw hyn. Nid yw'r Pwyllgor ond yn gwahodd y Cynulliad, felly, i roi sylw arbennig i'r ddarpariaeth dan sylw fel un yr oedd angen eglurhad pellach arni, a bod yr eglurhad hwnnw bellach wedi'i roi.

Mae rhai pwyntiau ychwanegol a nodwyd gan gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor mewn perthynas â drafft blaenorol yn awr wedi'u hystyried.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

28 Mai 2002

**ATODIAD**

**<u>Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002</u>**

Mae'r pwynt yr ydych yn ei godi mewn perthynas â'r defnydd o "gofynion" a "canllawiau" wedi cael ei nodi a'i dderbyn, fel y pwyntiau drafftio bychain eraill.

Mae'r pwyntiau pwysig a godwch yn gysylltiedig â:

(a) defnyddio amod wrth wneud cais am "gymeradwyaeth ymlaen llaw" i leoliad ac ymddangosiad y datblygiad yn hytrach nag amod sy'n gysylltiedig â'r caniatâd datblygu ei hun; a

(b) cyfyngu ar yr amod sy'n gofyn am y dystysgrif angenrheidiol i'r datblygiadau hynny sy'n dod o dan Amod A.2(3).

I raddau helaeth, mae'r pwyntiau hyn yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae datblygiadau telathrebu'n perthyn i dri dosbarth:

(i) datblygiadau telathrebu a ganiateir o dan Ran 24 heb fod angen gwneud unrhyw fath o gais i'r awdurdod cynllunio lleol;

(ii) datblygiadau telathrebu a ganiateir o dan Ran 24 ar yr amod y gwneir cais am "gymeradwyaeth ymlaen llaw";

(iii) datblygiadau telathrebu na chaniateir o dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ac felly mae'n ofynnol gwneud cais llawn am ganiatâd cynllunio.

Pe gwneir y gorchmynion arfaethedig, yna (pan fo antena i'w gael) bydd angen tystysgrif cydymffurfio ar ddosbarthiadau (ii) a (iii) ond nid ar ddosbarth (i) (fel y nodwyd gennych chi).

Er bod modd cyflwyno achos dros ymestyn y gofyniad am dystysgrif i gynnwys dosbarth (i) mae yna wrthwynebiadau ymarferol. Gan nad yw hi'n ofynnol ar hyn o bryd i'r dosbarth hwn o ddatblygiad hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol, ni fyddai modd gorfodi datblygwr i gael tystysgrif cyn dechrau ar y gwaith oni bai bod rhyw fath o ddyletswydd ychwanegol i gyflwyno copi i'r awdurdod cynllunio lleol. Er na fyddai gweithredu hyn yn arbennig o feichus byddai angen rhyw fath o hysbysiad, wrth gwrs, lle nad oes i'w gael ar hyn o bryd ac mae'r Gweinidog yn credu y byddai'r ddadl a fyddai'n deillio o hyn yn fwy na'r manteision posibl. Mae'r penderfyniad i gyfyngu'r gofyniad newydd i'r achosion hynny lle mae cais eisoes yn ofynnol felly'n benderfyniad polisi ac nid oes disgwyl iddo newid.

Unwaith y cymerir penderfyniad i gyfyngu'r gofyniad i'r datblygiadau telathrebu hynny lle mae gofyn eu cymeradwyo ymlaen llaw, bydd gwneud hynny drwy ei wneud yn un o amodau'r cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw, yn hytrach nag yn un o amodau'r datblygiad sy'n cael ei ganiatáu, yn dod yn fater o drefn yn hytrach na sylwedd.

Wrth ddewis gwneud y gofyniad yn un o amodau'r cais, bu rhagesiampl yr Alban, unwaith eto, yn ffactor bwysig, sef y Town and Country Planning (General Permitted Development) (Scotland) Amendment (No. 2) Order 2001 (SSI 2001/266). (*Nodyn: Nid yw'r gofynion "cymeradwyaeth ymlaen llaw" yr un peth oherwydd ymddengys fod y dosbarthiadau o ddatblygiadau telathrebu lle mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio yn llawer ehangach yn yr Alban, ond mae'r dull o gyflwyno'r gofyniad am dystysgrif, sef y dylai ddod gyda hysbysiad sydd eisoes yn ofynnol am resymau eraill, yr un peth â drafft Cymru).*

Eto, ar ôl ystyried y materion a godwyd gennych yn ofalus, mae'r Is-adran Cynllunio yn bwriadu parhau â'r gorchymyn arfaethedig yn ei ffurf wreiddiol.